UAL Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Celf a Dylunio gyda Bagloriaeth Cymru (Amser Llawn)

Mae'r cwrs celf a dylunio cyffredinol hwn yn galluogi dysgwyr i ennill profiad a sgiliau ymarferol ar draws pob math o feysydd celf a dylunio. Os ydych chi wedi ymrwymo i astudiaeth bellach neu yrfa mewn celf a dylunio, dyma'r cwrs i chi. Mae'r maes llafur yn ddeinamig ac eang, gan gynnig llawer o gyfleoedd cyffrous i chi ddefnyddio'ch dychymyg a'ch creadigrwydd. Mae'r gallu i ddarlunio a sgiliau ymarferol yn hanfodol, ac mae sgiliau cyfrifiadurol da yn bwysig hefyd. Bydd angen llygad da am siâp a lliw, sgiliau dadansoddi da a pharodrwydd i arbrofi, yn ogystal ag ymrwymiad a dyfalbarhad. Mae hwn yn gwrs lefel 3, sy'n gyfwerth â 3 chymhwyster Safon Uwch.

Cod UCAS: PVAF03AD11

Gofynion Mynediad

Cymhwyster Lefel 2 mewn pwnc priodol neu 5 TGAU Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg.

Rhagolygon Gyrfa

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i gael mynediad i gyrsiau lefel uwch e.e. diploma sylfaen mewn celf a dylunio a chyrsiau gradd, ac yn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth ym maes celf a dylunio.

DULL ASTUDIO
FT

LLEOLIAD
Coleg Afan - 01639 648200

Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

HYD Y CWRS
2 years